

Prif Swyddog Technegol

Fel ein Prif Swyddog Technegol, byddwch yn chwarae rhan ganolog wrth lunio a chyflawni ein strategaeth ddigidol a thechnolegol i gefnogi ein cenhadaeth a'n twf yn y dyfodol. Mae hon yn swydd arwain allweddol, a bydd ei deiliad yn gyfrifol am sbarduno arloesedd, sicrhau seilwaith technoleg gadarn a diogel, a gofalu bod atebion technegol yn cyd-fynd â nodau busnes. Rydym yn chwilio am arweinydd â gweledigaeth sydd ag arbenigedd technegol cryf a meddylfryd cydweithredol, person a fydd yn gallu ysbrydoli timau, rheoli partneriaethau technoleg allweddol a'n helpu ni i ddefnyddio technoleg i wasanaethu ein cynulleidfaoedd mewn ffyrdd newydd a diddorol.

Ymrwymiad i'r Gymraeg

Nid yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon, ond byddent yn fanteisiol. Rydym yn falch o fod yn ddarlledwr Cymraeg ac rydym yn disgwyl i holl aelodau'r tîm werthfawrogi a pharchu'r iaith a'r diwylliant. Rydym yn cefnogi ac yn annog dysgu Cymraeg yn y gweithle, ac rydym yn chwilio am rywun sy'n agored i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r iaith fel rhan o'u taith gyda ni.

Cyfrifoldebau Allweddol:

- Datblygu ac arwain strategaeth dechnoleg gyffredinol y sefydliad, gan sicrhau ei bod yn cyd-fynd â chenhadaeth, gwerthoedd a nodau twf S4C.
- Rheoli'r broses o ddewis, cyflwyno a chynnal a chadw seilwaith technoleg a meddalwedd, gan gynnwys technolegau amser real a llifoedd gwaith cynhyrchu rhithiol, gan sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau'r diwydiant a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg, a nodi cyfleoedd ar gyfer arloesi a gwella.
- Goruchwylio'r holl agweddau technegol ar weithrediadau darlledu, gan gynnwys trosglwyddo, amserlennu a chwarae, seilwaith, a rhwydweithiau cyfrannu a dosbarthu.
- Ysgogi trawsnewid digidol ar draws platfformau – gan sicrhau profiad di-dor ac arloesol i wylwyr ar draws gwasanaethau darlledu, ar-lein ac ar alw.
- Arwain ar ddatblygu a chynnal a chadw pensaernïaeth technoleg sy'n wydn, diogel a graddadwy.
- Hyrwyddo arloesedd mewn meysydd fel deallusrwydd artiffisial, awtomeiddio a dadansoddeg data.

- Goruchwylio strategaeth TG a seiberddiogelwch S4C ac arwain ar gyflwyno system rheoli darlledu newydd ar gyfer S4C, gan sicrhau cydymffurfiaeth a diogelwch systemau a data ac addasrwydd ar gyfer strategaeth aml-blattform S4C.
- Adeiladu perthnasoedd cryf gyda thimau mewnol a phartneriaid allanol gan gynnwys cwmnïau cynhyrchu a chyflenwyr a rheoli perthnasoedd cytundebol gyda chyflenwyr gwasanaethau technoleg allanol.
- Arwain, ysbrydoli a datblygu timau technoleg uchel eu perfformiad gyda phwyslais ar ddiwylliant, amrywiaeth, a gwelliant parhaus.
- Rheoli cyllidebau, risg, caffael a chynllunio cylch bywyd ar gyfer yr holl systemau technegol a phrosiectau buddsoddi cyfalaf.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reoliadau darlledu, digidol a data perthnasol (e.e., Ofcom, GDPR).
- Darparu mewnbwn strategol ar lefel y Bwrdd a'r Weithrediaeth, gan weithredu fel ymgynghorydd allweddol ar bob mater sy'n gysylltiedig â thechnoleg, a chynrychioli S4C mewn fforymau ledled y diwydiant ar ddatblygiadau teledu yn y dyfodol.

Sgiliau a Phrofiad:

- Profiad profedig mewn rôl arwain technoleg ar lefel uwch, yn ddelfrydol mewn amgylcheddau darlledu/cyfryngau/digidol.
- Gwybodaeth gref am dechnolegau darlledu traddodiadol a phlatfformau digidol.
- Hanes o gyflwyno rhaglenni technoleg a thrawsnewid ar raddfa fawr.
- Dealltwriaeth ddofn o seiberddiogelwch, preifatrwydd data, a seilwaith TG.
- Sgiliau rhagorol o ran arwain ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Meddyliwr strategol sydd â dull ymarferol, cydweithredol.
- Y gallu i addasu i flaenoriaethau sy'n newid ac amgylcheddau cyflym.

Dosbarthu

- Profiad profedig o gynefino â gwahanol blatfformau technoleg.
- Profiad o reoli cylchoedd datblygu prosiectau a thechnoleg.
- Deall a gweithredu gofynion Metadata e.e. i sicrhau bod cynnwys S4C mor weladwy â phosibl ar draws pob platfform.
- Profiad o weithio gyda phlatfformau trydydd parti lle mae S4C (neu ddarpariaeth gymharol) ar gael (e.e. iPlayer).
- Profiad o arwain prosiectau datblygu gan weithio gyda nifer o randdeiliaid.
- Profiad o weithio gyda Sain ac Isdeitlau mewn Dwy Iaith yn ogystal â phob Gwasanaeth Mynediad arall a swyddogaethau ategol.

- Dealltwriaeth o'r broses amgodio sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno ffeiliau (e.e. i Clic, iPlayer a chwaraewyr eraill, ar gyfer cynnwys VOD a chynnwys byw, yn ogystal â'r systemau technoleg sy'n cefnogi cyhoeddi ar y platfformau hyn (e.e. AWS)).
- Dealltwriaeth o reoli caniatâd a thrin data gan danysgrifwyr i wasanaethau platfformau ffrydio.

Manyleb y Person

Nodwedd	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau	Gradd neu brofiad cyfatebol.	Sgiliau Cymraeg Cymhwyster Rheoli Prosiect e.e. Prince Ardystiad Agile neu Scrum Ardystiad AWS neu Google Cloud
Profiad	Arweinyddiaeth gref, arbenigedd technegol a sgiliau meddwl strategol i reoli ac arloesi seilwaith technoleg ein cwmni. Y profiad o oruchwylio cyfeiriad strategol, cynllunio, datblygu, gweithredu a chefnogi ym maes technoleg, gan sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o dechnoleg yn unol â nodau busnes S4C. Profiad o ddatblygu a chynnal a chadw seilwaith TG, gan gynnwys seiberddiogelwch, mentrau trawsnewid digidol a rheoli perthnasoedd gyda gwerthwyr allanol. Sgiliau Rheoli Prosiectau eithriadol. Profiad o redeg prosiect mawr gyda nifer o randdeiliaid. Profiad o redeg portffolios prosiectau. Profiad o reoli newid busnes. Gwybodaeth fanwl am ddiogelwch gwybodaeth a	Profiad o negodiadau masnachol gyda darparwyr trydydd parti. Profiad o ddarparu, caffael neu drefnu hyfforddiant a diweddariadau seiberddiogelwch neu ddiogelwch gwybodaeth.

	mesurau ataliol. Hanes profedig o gynllunio strategol a lliniaru risg seiber ac atebion. Profiad o ddarparu, caffael neu drefnu hyfforddiant a diweddariadau seiberddiogelwch neu ddiogelwch gwybodaeth. Profiad o reoli perthnasoedd gyda darparwyr trydydd parti. Profiad o ddefnyddio data a dadansoddeg i fonitro a gwerthuso cytundebau gwasanaeth. Sgiliau Rheoli Prosiectau eithriadol. Profiad o redeg prosiect mawr gyda nifer o randdeiliaid. Profiad o redeg portffolio prosiectau. Profiad o reoli newid busnes. Gwybodaeth fanwl am ddiogelwch gwybodaeth a mesurau ataliol. Hanes profedig o gynllunio strategol a lliniaru risg seiber ac atebion. Profiad o reoli perthnasoedd gyda darparwyr trydydd parti. Profiad o ddefnyddio data a dadansoddeg i fonitro a gwerthuso cytundebau gwasanaeth. Profiad profedig o gynefino â gwahanol blatfformau technoleg. Profiad o reoli cylchoedd datblygu prosiectau a thechnoleg.	
Sgiliau a Gwybodaeth	Dealltwriaeth o AWS DevOps a rheoli rhanddeiliaid cysylltiedig.	Yn gyfarwydd ag ISO 27001, canllawiau NCSC (Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol y DU) neu gyfwerth.
Nodweddion Personol	Sgiliau rhagorol o ran arwain ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Meddylwr strategol sydd â dull ymarferol, cydweithredol.	

Manylion eraill

- Lleoliad:** Lleoliad arferol eich gwaith fydd S4C, Sgwâr Canolog, Caerdydd. Mae gan S4C swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Chaernarfon ac rydym yn gweithredu polisi gweithio'n hybrid. Bydd gofyn ichi fynychu swyddfeydd S4C yng Nghaernarfon a Chaerfyrddin o bryd i'w gilydd.
- Cyflog:** Yn unol a phrofiad
- Oriau gwaith:** 35¾ yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc.
- Cytundeb:** Parhaol
- Cyfnod prawf:** 6 mis
- Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau gyda thâl y flwyddyn. Os ydych yn cael eich cyflogi yn rhan amser byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau.
- Pensiwn:** Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

Ceisiadau

Os hoffech chi gael sgwrs anffurfiol am y rôl neu os oes gennych chi gwestiynau am y penodiad, cysylltwch â nia.bennett@effectusHR.com a fydd yn hapus i drefnu galwad.

I wneud cais, anfonwch e-bost at nia@effectusHR.com gyda:

- Eich CV (dim mwy na thair ochr).
- Datganiad ategol (dim mwy na dwy ochr) sy'n nodi pam rydych chi'n meddwl mai hon yw'r rôl gywir i chi a sut rydych chi'n cwrdd â'r meini prawf sydd wedi nodi yn y disgrifiad swydd, gan ddarparu enghreifftiau perthnasol.

Rydym yn gweithio'n unig gyda effectusHR ar y swydd hon ac ni fyddwn yn derbyn CVs, ymholiadau nac awgrymiadau digymell gan asiantaethau eraill. Bydd unrhyw CV a gyflwynir y tu allan i'r trefniant hwn yn cael ei ystyried yn un digymell ac ni fydd yn gymwys am unrhyw ffi asiantaeth.

Defnyddio AI

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweiliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.